



ADRODDIADAU ARHOLWYR TGAU

**TGAU (NEWYDD)
ASTUDIO'R CYFRYNGAU**

HAF 2019

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC:
<https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=cy>

Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

Adroddiad Ystadegol Blynyddol

Mae'r Adroddiad Ystadegol blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn cynnwys canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

Uned	Tudalen
Uned 1: Ymchwilio i'r Cyfryngau	1
Uned 2: Deall Teledu a Ffilm	5
Uned 3: Creu Cyfryngau	7

ASTUDIO'R CYFRYNGAU

TGAU (NEWYDD)

Haf 2019

UNED 1: YMCHWILIO I'R CYFRYNGAU

Sylwadau Cyffredinol

Mae'n braf iawn nodi, yn yr achos cyntaf o arholi'r fanyleb newydd mewn TGAU Astudio'r Cyfryngau, fod y canlynol yn wir am y cwestiynau a osodwyd yn y papur arholiad ar gyfer Uned 1: Atebwyd Ymchwilio i'r Cyfryngau yn dda ar y cyfan gan y rhan fwyaf o ymgeiswyr. Roedd yr holl gwestiynau yn hygyrch i ymgeiswyr a oedd yn gallu dangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gysyniadau allweddol Astudio'r Cyfryngau fel y'u nodwyd yn y fanyleb, ac roeddent yn gallu dadansoddi testunau'r cyfryngau mewn ffyrdd effeithiol.

Ar gyfer Adran A: Cynrychioliadau – roedd hysbysebu, gemau fideo a phapurau newydd, y deunydd adnoddau, poster ar gyfer y gêm fideo *Emergency 2017*, yn arbennig o effeithiol o ran galluogi ymgeiswyr i arddangos eu sgiliau dadansoddol ar gyfryngau testun heb eu gweld, ac i gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gynrychioliadau wrth ei gymharu â'u hastudiaethau eu hunain mewn canolfannau. Roedd yn drawiadol iawn ar adegau i weld tystiolaeth o sgiliau cymharu lefel uchel a oedd yn seiliedig ar wybodaeth a dealltwriaeth ardderchog o gynrychioliadau o'r rhyweddau a archwiliwyd yn y testunau.

Profodd Adran B yn effeithiol hefyd o ran caniatáu i ymgeiswyr ddangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r diwydiant cerddoriaeth. Roedd tystiolaeth glir yn ymatebion yr ymgeiswyr o sut y mae amrywiaeth o gynhyrchion sy'n cael eu cynhyrchu gan y diwydiant yn cael eu defnyddio gan sefydliadau'r cyfryngau, a sut mae cynulleidfaoedd yn ymgysylltu â nhw am amrywiaeth o ddefnyddiau a boddhad. Roedd gwybodaeth a dealltwriaeth o ystod eang o gynhyrchion y cyfryngau, gan gynnwys rhaglenni radio, y cyfryngau cymdeithasol a fideo cerddoriaeth, ar brydiau, yn drawiadol iawn ac yn dangos tystiolaeth glir o ymgeiswyr yn cael eu paratoi'n dda gan eu canolfannau ar gyfer yr amrywiaeth eang o destunau sydd angen eu hastudio ar gyfer y fanyleb newydd.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

ADRAN A: Cynrychioliadau – hysbysebion, gemau fideo a phapurau newydd

- Cw.1 (a)** Enillodd mwyafrif helaeth yr ymgeiswyr un marc, gan gynnig disgrifiad sylfaenol o un dyn yn y poster. Gan amlaf hwn oedd y diffoddwr tân yn y blaen er i nifer o ymgeiswyr ddisgrifio dynion eraill yn y poster megis yr heddlu/ swyddog diogelwch gyda gwn, y meddyg oedd yn trin y person a anafwyd neu'r diffoddwr tân a oedd yn ceisio achub pobl o'r trênn. Dyfarnwyd dau farc am atebion a ddefnyddiodd rhywfaint o derminoleg pwnc benodol yn eu hateb megis 'arwr gwrywaidd ystrydebol' neu yn eu disgrifiad o godau gwisg, codau gwrthrych neu amrywiaeth o godau symbolaidd eraill.

- (b) Profodd y cwestiwn hwn yn fwy o her i nifer o ymgeiswyr. Roedd y cwestiwn yn gofyn i ymgeiswyr esbonio dyluniad a gosodiad y poster. Nododd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr nodweddion allweddol y drefniadaeth weledol – safle'r teitl ar y brig, y prif gymeriad yn y blaen a'r lleoliad yn y cefndir. Lle'r oedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr wedi nodi'r nodweddion allweddol hyn, dyfarnwyd o leiaf dri marc iddynt am esboniad manwl. Dyfarnwyd pedwar neu bum marc i atebion a oedd yn archwilio'r gosodiad a'r dyluniad, ei drefniadaeth weledol a'i godau cyfansoddiad wedi'i ategu gan derminoleg pwnc benodol. Roedd y pwyntiau hyn yn cynnwys y rheol traeanau, dylunio teipograffig, ymdeimlad clir o haenu yn y blaen, canol a chefnidir, lleoli logo'r cwmni a dosbarthu plattform PC digidol. Esboniodd llawer o ymgeiswyr hefyd y defnydd o liw yn y dyluniad, gan esbonio'r defnydd o liwiau llachar o balet lliw cynnes o goch, oren a melyn sydd ag arwyddocâd o dân, ffrwydradau a damweiniau. Esboniwyd y gloywi a amlygwyd o amgylch y prif gymeriad hefyd gan lawer o ymgeiswyr yn eu hesboniad o'r dyluniad.
- (c) Roedd ymgeiswyr ar y cyfan yn ymateb yn dda i'r cwestiwn hwn gan ganolbwyntio ar y mise-en-scene a'r modd y cynrychiolir dynion. Roedd yr atebion yn aml yn canolbwyntio ar yr olygfa damweiniau ac achosion brys a'r amrywiaeth o bropia, cymeriadau a gwisgoedd. Rhoddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr gynnig ar ddisgrifio naratif yr olygfa a rôl y cymeriadau sy'n gysylltiedig â'u gwisgoedd a'u propiau. Darparwyd amrywiaeth o bwyntiau ar stereoteipiau o ran rhywedd, gan gynnwys y prif gymeriad yn cael ei gynrychioli fel achubwr arwrol, y swyddog arfau tanio gyda dryll yn cael ei gysylltu â stereoteipiau o ddynion â drylliau, neu'r meddyg yn achub person a anafwyd. Roedd atebion yn y bandiau uwch o 4 neu 5 yn cynnig atebion manwl da o'r mise-en-scene a'r cynrychioliadau o ddynion. Roedd yr ymgeiswyr a gafodd 8 marc ym mand 5 yn aml yn archwilio cymhlethdodau'r cynrychioliadau o ddynion a oedd yn gysylltiedig â'r mise-en-scene. Bu'r ymgeiswyr hyn hefyd yn trafod sut roedd y cynrychioliadau naill ai'n atgyfnerthu stereoteipiau neu'n eu herio.
- (ch) Roedd y cwestiwn hwn yn arbennig o effeithiol o ran galluogi ymgeiswyr i gymharu'r deunydd adnoddau arholiad gydag enghraifft o glawr gêm fideo a astudiwyd yn eu canolfan. Enghreifftiau poblogaidd oedd cloriau gemau fideo fel The Last of Us, Heavy Rain neu GTA lle'r oedd ymgeiswyr yn aml yn cymharu'n fanwl y cynrychioliadau o ddynion fel y prif gymeriadau yn y gemau hyn. Roedd y cymariaethau hyn yn aml yn cael eu cefnogi gan ddefnydd effeithiol iawn o derminoleg pwnc benodol yn seiliedig ar amrywiaeth eang o godau technegol a symbolaidd. Defnyddiwyd codau ystumio ac iaith y corff yn fwyaf effeithiol i benderfynu ar gynrychioliad o ddynion. Roedd y rhain yn aml yn gysylltiedig â'r gosodiad, y propiau a'r gwisgoedd a'r naratif ehangach a awgrymwyd gan y mise-en-scene. Ar gyfer ymgeiswyr y dyfarnwyd y marciau uwch iddynt ym mand 5, roedd cyfeiriad clir yn aml at safbwyntiau damcaniaethol megis cyferbynnu deuaidd neu'r ddamcaniaeth defnydd a boddhad. Roedd yr atebion gorau yn aml yn archwilio cymhlethdod cynrychioliadau rhywedd dynion mewn ffyrdd soffistigedig gan gyfeirio at wrywod neu faterion cyfoes o ddynion mewn proffesiynau gofal o gymharu â stereoteipiau gwrywaidd mwy traddodiadol mewn gemau fideo sy'n seiliedig ar antur.

ADRAN B: Cerddoriaeth

- Cw.2 (a)** Ennillodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr un marc am ffordd briodol y mae technoleg ddigidol yn cael ei defnyddio i wrando ar gerddoriaeth.
- (b)** Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu cynnig esboniad syml yn seiliedig ar ddenu amrywiaeth eang o wrandawyr i ganeuon newydd. Roedd atebion lefel uwch yn cynnig esboniadau manylach, gan fynd i'r afael yn aml â materion hyrwyddo caneuon newydd a chysylltu hyn â llwyddiant yn y siartiau neu gael eu chwarae'n gyson ar orsafoedd radio poblogaidd gyda chyflwynwyr poblogaidd.
- (c)** Er bod y rhan fwyaf o ymgeiswyr wedi cynnig ymateb manwl, methodd llawer o atebion nodi rhaglen radio benodol, yn hytrach yn cynnig gorsaf radio fel *Radio One*. Felly, ni ellid dyfarnu marciau uwchben Band 2 i ymgeiswyr a oedd yn cynnig gorsaf radio yn unig. Fodd bynnag, roedd llawer o dystiolaeth o ymgeiswyr yn cyfeirio at gyflwynwyr fel Nick Grimshaw neu *Breakfast Show* ar *Radio One* i gyrraedd y bandiau uwch ar y cynllun marcio ar gyfer y cwestiwn hwn.
- Cw.3** Gallai'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr gynnig artist neu fand cyfoes priodol ac esbonio eu presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol fel Facebook neu Twitter ond yn anffodus nid oedd llawer o ymgeiswyr yn archwilio sut roedd eu hartist neu fand dewisol yn cael ei gynrychioli. Archwiliodd llawer o'r atebion sut mae'r cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio gan artistiaid cyfoes a sut mae cynulleidfaoedd yn ymgysylltu â nhw. Er mwyn cael mynediad i'r bandiau uwch, dylai ymgeiswyr archwilio materion yn ymwneud â chynrychioliad trwy stereoteipiau o sêr pop, megis Difas, bechgyn neu ferched drwg a/neu faterion genre sy'n gysylltiedig â chynrychioliad neu gynrychioliadau cadarnhaol/negyddol. Roedd yr atebion a oedd yn derbyn y marciau uwch a ddangosodd wybodaeth a dealltwriaeth dda neu dda iawn o gynrychioliadau ym mandiau 4 a 5 yn aml yn archwilio materion yn ymwneud â chynrychioliadau gan gynnwys rhywedd, ethnigrwydd, artistiaid fel pobl fusnes, artistiaid sy'n rheoli eu cynrychioliad eu hunain neu fod yn fodelau rôl i bobl ifanc.
- Cw.4** Gofynnodd y cwestiwn hwn i'r ymgeiswyr esbonio sut y defnyddiwyd gwaith camera a golygu mewn un fideo cerddoriaeth hanesyddol yr oeddent wedi'i hastudio. Roedd y cwestiwn yn effeithiol wrth ennyn atebion craff gydag amrywiaeth eang o fideos cerddoriaeth hanesyddol yn y dystiolaeth. Dewisiadau poblogaidd oedd Thriller Michael Jackson, Rio Duran Duran, neu Material Girl Madonna. Gallai'r rhan fwyaf o ymgeiswyr gynnig esboniadau manwl o'r gwaith camera a ddefnyddiwyd gydag amrywiaeth o saethiadau, onglau a symudiadau a archwiliwyd yn y fideo cerddoriaeth. Ni chafodd y golygu ei esbonio cystal er i lawer o ymgeiswyr esbonio sut y cafodd strwythur y fideo cerddoriaeth ei ddilyniannu i adeiladu naratif gan ddefnyddio amrywiaeth o leoliadau i apelio at gynulleidfaoedd. Mewn nifer bach o achosion, defnyddiodd yr ymgeiswyr fideo cerddoriaeth gyfoes ac felly ni allent gael mynediad i'r lefelau marciau uwchben band 2. Rhaid i ganolfannau fod yn ofalus wrth ddewis y testunau i'w hastudio yn yr adran hon i gynnwys fideos cerddoriaeth hanesyddol a chyfoes.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

Yn gyffredinol bu'r papur yn llwyddiannus iawn o ran caniatáu i ymgeiswyr ddangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gysyniadau allweddol y fanyleb newydd fel y'i cymhwysir i Gynrychioliadau mewn gemau fideo ac mewn cerddoriaeth ac yn rhoi cyfleoedd i ddangos cymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i ddadansoddi cynhyrchion y cyfryngau fel y nodir ar gyfer Uned 1 yn Ymchwilio i'r Cyfryngau.

Yn y mwyafrif helaeth o achosion, roedd y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn gallu cwblhau'r papur gyda dim ond ychydig o gwestiynau heb eu hateb, ac roedd yn braf iawn nodi bod y broses rheoli amser gan ymgeiswyr yn yr arholiad wedi bod yn effeithiol ac yn hylaw. Yn gryno, dylai canolfannau:

- Sicrhau bod holl godau a chonfensiynau'r cynhyrchion print ar gyfer Adran A yn cael eu hastudio a sut maen nhw'n cael eu defnyddio i greu cynrychioliad mewn hysbysebu, gemau fideo a phapurau newydd.
- Astudio cynrychioliadau o rywedd gydag amrywiaeth o enghreifftiau o ddynion a merched mewn gemau fideo a hysbysebu ac o ddigwyddiadau mewn papurau newydd.
- Astudio rhaglenni radio penodol ar gyfer cerddoriaeth Adran B ac atgoffa ymgeiswyr i gyfeirio at y rhain wrth ateb cwestiynau arholiad.
- Sicrhau bod ymgeiswyr yn astudio cynrychioliadau o artistiaid neu fandiau penodol.
- Astudio fideos cerddoriaeth hanesyddol a chyfoes.

ASTUDIO'R CYFRYNGAU

TGAU (NEWYDD)

Haf 2019

UNED 2: DEALL TELEDU A FFILM

Sylwadau Cyffredinol

Yn gyffredinol, roedd y papur arholiad ar gyfer Uned 2 yn rywfaint o her i lawer o ymgeiswyr gyda nifer mwy o sgriptiau anghyflawn a nifer o gwestiynau nad oedd lleiafrif bach o ymgeiswyr wedi eu hateb o'i gymharu ag Uned 1. Y cwestiynau na atebwyd amlaf oedd cwestiynau 3 a 4 ar Adran B y papur sy'n awgrymu bod nifer o ymgeiswyr wedi treulio gormod o amser ar Adran A. Roedd cwestiwn 1ch yn benodol yn dangos tystiolaeth o ymgeiswyr yn ysgrifennu ymatebion llawn a manwl iawn, efallai ar draul y ddau gwestiwn olaf yn Adran B. Fodd bynnag, roedd llawer o dystiolaeth o rai atebion ardderchog i gwestiynau 3 a 4 lle roedd ymgeiswyr yn amlwg wedi rheoli eu hamser yn effeithiol yn ystod y cyfnod arholi.

Roedd rhywfaint o dystiolaeth o ymgeiswyr yn canfod cwestiynau 1c a 2c yn anoddach, sy'n awgrymu bod angen i Ganolfannau ymdrin â materion sefydliadol ehangach yn y diwydiannau teledu a ffilm megis marchnata rhaglenni teledu ac ariannu yn y diwydiant ffilm yn fanylach. Eto, fodd bynnag, roedd tystiolaeth o rai atebion ardderchog i'r cwestiynau hyn.

Rhaid canmol nifer o ymgeiswyr am eu hatebion rhagorol i'r cwestiynau heriol hyn ac am ddyfnder a manylder eu hatebion dan amodau arholiad.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

Adran A: Cymru ar y Teledu

- Cw.1 (a)** Cafodd mwyafrif helaeth yr ymgeiswyr farc am y cwestiwn hwn wrth nodi cynulleidfa briodol ar gyfer y rhaglen deledu o'u dewis a oedd, yn y rhan fwyaf o achosion, y gynulleidfa i Gavin and Stacey.
- (b)** Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i'r ymgeiswyr esbonio'n fyr pam fod y rhaglen deledu a astudiwyd yn boblogaidd yng Nghymru. Cynigiodd mwyafrif helaeth yr ymgeiswyr o leiaf ymateb boddhaol yn seiliedig ar apeliadau cynulleidfa gomedi, cynnwys pobl Cymru, y lleoliadau, y storïau a'r cymeriadau. Dangosodd ymatebion da wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r cyfryngau a'r materion yn ymwneud â chynrychioliadau sy'n gysylltiedig ag iaith y cyfryngau a'r codau genre a'r confensiynau a ddefnyddiwyd yn y rhaglen a astudiwyd.
- (c)** Roedd llawer o ymgeiswyr yn canfod y materion o sut roedd y rhaglen deledu a astudiwyd yn cael ei marchnata yn fwy heriol. Roedd llawer o ymgeiswyr wedi drysu'r defnydd o raghysbysebion gyda hysbysebu yn arbennig gan fod Gavin and Stacey wedi'i farchnata ar y BBC sydd wrth gwrs heb hysbysebion. Cytunwyd felly y gallai arholwyr roi marciau am hysbysebu drwy ddod i gasgliad â rhaghysbysebion ar gyfer un o'r technegau marchnata a ddefnyddiwyd. Roedd hyn yn aml yn cael ei gefnogi gan y defnydd o gyfryngau cymdeithasol fel ail ffordd o farchnata'r rhaglen neu o ddefnyddio gwefan y BBC. Roedd rhai atebion gwell yn amlinellu'r ddau ddull priodol yn aml gan gyfeirio at radio'r BBC, y cyfryngau print megis y Radio Times a chylchgronau amserlenni teledu neu'r rhan olygyddol mewn papurau newydd.

- (ch) Ar y cyfan, profodd y cwestiwn hwn yn effeithiol iawn wrth ennyn atebion manwl ac wedi'u datblygu'n dda gan lawer o ymgeiswyr gydag atebion trefnus wedi'u strwythuro'n dda yn seiliedig ar y rhaglen deledu a ddewiswyd ac apeliadau'r gynulleidfa. Defnyddiodd llawer o ymgeiswyr y pwyntiau bwled ar y papur i strwythuro eu hymatebion. Dangosodd yr ymgeiswyr eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r cysyniadau allweddol ac wrth gymhwyso'r cysyniadau allweddol hyn at ddadansoddi'r rhaglen deledu a ddewiswyd, sef Gavin and Stacey yn y mwyafrif helaeth o achosion. Ar y gorau, roedd yr ymgeiswyr y dyfarnwyd marciau iddynt yn y bandiau uwch yn aml yn archwilio'r materion cymhleth o gynrychioli pobl Cymru a Lloegr. Roedd dadansoddiad soffistigedig yn cynnwys cyfeiriad manwl at y prif gymeriadau a'r naratifau a'r themâu allweddol dan sylw, o olygfeydd comig i themâu mwy difrifol o ran perthnasoedd personol a'r materion dan sylw. Esboniwyd rhai o'r materion cymhleth hyn wedyn gan gyfeirio at y defnyddiau a'r boddhad ehangach o'r bennod a astudiwyd. Mewn nifer bach o achosion, ni wnaeth rhai ymgeiswyr nodi'r bennod a astudiwyd a gwnaethant drafod y gyfres yn gyffredinol. Mewn rhai achosion, efallai y bydd ymgeiswyr wedi treulio gormod o amser ar y cwestiwn hwn, gan ysgrifennu ymatebion hynod fanwl ac efallai rhy hir, a hynny ar draul eu hymgais i gwblhau'r holl gwestiynau, yn enwedig cwestiwn 3 a 4 yn Adran B.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

Cyngor i Ganolfannau

- Rhaid i'r ymgeiswyr geisio ateb pob cwestiwn a rheoli'r amser a dreulir ar bob adran yn gyfartal.
- Archwilio'r cysyniadau allweddol sy'n gysylltiedig â sefydliadau'r cyfryngau megis marchnata ac ariannu rhaglenni teledu a ffilmiau Hollywood a sicrhau bod ymgeiswyr yn deall y gwahaniaethau rhwng cynhyrchu, dosbarthu ac arddangos yn y gwahanol ddiwydiannau.
- Sicrhau bod y bennod briodol o'r rhaglen deledu yn cael ei hastudio'n fanwl a'i nodi yn eu hymatebion ysgrifenedig.

ASTUDIO'R CYFRYNGAU

TGAU (NEWYDD)

Haf 2019

UNED 3: CREU CYFRYNGAU

Sylwadau Cyffredinol

Yn y flwyddyn hon, sef blwyddyn gyntaf y Fanyleb newydd, fe wnaeth y rhan fwyaf o ganolfannau ac ymgeiswyr gymhwyso ei gofynion yn briodol. Roedd y briffiau a osodwyd yn hygyrch i'r ystod lawn o ymgeiswyr ac roedd y deilliannau cynhyrchu yn dangos defnydd effeithiol o wybodaeth a dealltwriaeth o iaith y cyfryngau, cynrychioliad a chynulleidfaoedd mewn perthynas â chynhyrchu ar gyfer cynulleidfa benodol.

Y dewisiadau print: cylchgrawn a ffilm oedd fwyaf poblogaidd, ond dewisodd nifer sylweddol o ymgeiswyr o'r opsiynau briffiau clyweledol: cerddoriaeth, ffilm a theledu. Y lleiaf poblogaidd oedd yr opsiynau ar-lein ond roedd gwaith a welwyd mewn ymateb i'r opsiynau briffiau hyn wedi'i weithredu'n dda. Yn bennaf, roedd gwaith a gynhyrchwyd ar draws Uned 3, ar y cyfan, yn cyd-fynd â'r manylion a amlinellwyd yn y fanyleb.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

Gweinyddu

Eleni, defnyddiodd y canolfannau a'r cymedrolwyr Surpass i lwytho i fyny a llwytho i lawr gwaith Uned 3. Ar y cyfan, roedd y system yn gweithio'n dda. Y pwyntiau allweddol i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn nesaf yw:

- 5 Mai yw'r dyddiad cau ar gyfer llwytho gwaith i fyny i Surpass. Mae'n bwysig nodi y bydd codau allwedd ar gyfer Surpass yn cael eu cynhyrchu 48 awr ar ôl i'r sampl gael ei gynhyrchu o IAMIS; Mae angen cymryd hyn i ystyriaeth er mwyn osgoi tystiolaeth sampl yn cyrraedd yn hwyr
- Rhaid i ganolfannau defnyddio'r fformatau gofynnol ar gyfer ffeiliau. Gall methu â gwneud hyn arwain at oedi yn y broses gymedroli
- Bydd portffolios anghyflawn y gofynnir amdanynt yn y sampl yn gofyn i ganolfannau ofyn am godau newydd ar gyfer ymgeiswyr a amnewidiwyd. Atgoffir canolfannau i gynnwys nodyn i hysbysu'r cymedrolwr os yw hyn wedi ei gytuno gan CBAC
- Rhaid i ganolfannau labelu pob ffeil yn glir gyda chyfenw, rhagenw, a rhif ymgeisydd a beth yw'r ffeil
- Rhaid i bob ffurflen gael ei llofnodi gan yr athro a'r ymgeisydd
- Mae angen tri dyddiad adolygu gwahanol ar gyfer llofnodion ar gyfer dilysu cynhyrchiad
- Rhaid i aseswyr gwblhau sylwadau crynodyn yn ddigon manwl er mwyn i'r cymedrolwr gael dealltwriaeth glir o gyd-destun y gwaith, gan yn bwysig gyfeirio at y grid marciau i gefnogi'r marciau a ddyfernir.
- Mae'n rhaid i ganolfannau ag ymgeiswyr sy'n ymgymryd â gwaith pâr (clyweledol) lwytho'r ffurflen gwaith pâr i fyny sy'n nodi ymgeiswyr sydd wedi gweithio mewn pâr a'r rôl y maent wedi'i chymryd
- Rhaid i ganolfannau gynnwys unrhyw ohebiaeth rhwng y ganolfan a CBAC wrth lwytho gwaith i fyny; rhaid iddynt beidio â chysylltu â chymedrolwyr yn uniongyrchol. Os oes angen cysylltu â'r ganolfan, bydd hyn yn cael ei wneud drwy'r wybodaeth gyswllt swyddogol.

Asesu a Gosod Tasgau

Mae cynllunio pennu tasgau'n ofalus yn hanfodol er mwyn i ymgeiswyr fod yn llwyddianus. Dim ond y briffiau cynhyrchu swyddogol a gyhoeddir gan CBAC ar gyfer blwyddyn yr achrediad sy'n cael eu caniatáu. Rhaid i ymgeiswyr hefyd gyflawni'r gofynion penodol ar gyfer pob elfen o'r briff fel y nodir yn y fanyleb. Ni all canolfannau ddylunio tasgau y tu allan i gylch gwaith y fanyleb. Ni ellir dyfarnu marciau am waith a wneir nad yw o fewn y gridiau marciau. Mae gosod tasgau sydd wedi'u cynllunio'n dda yn hanfodol i sicrhau bod ymgeiswyr yn cael cyfle i gwrdd â'r meini prawf asesu a amlinellir yn y gridiau asesu: Ymchwilio, Cynllunio, Cynhyrchu a Dadansoddi Myfyriol.

Arweiniodd y rhan fwyaf o or-wobrwyo o waith at farcio nad oedd yn cymhwyso'r disgrifyddion yn gywir ar gyfer pob band yn y gridiau marciau. Er enghraifft, rhaid i gynrychiadau ym mand 5 ddangos sgiliau technegol a chreadigol ardderchog ar gyfer y genre a'r ffurf. Rhaid i'r cynhyrchiad ddangos cysondeb o ran gwybodaeth a dealltwriaeth o iaith y cyfryngau, a rhaid iddo lunio cynrychioliadau o bobl, lleoedd, digwyddiadau neu faterion sy'n targedu'r gynulleidfa arfaethedig mewn ffordd briodol iawn. Yn ogystal, rhaid i'r cynhyrchiad ddangos gallu ardderchog i ddefnyddio iaith y cyfryngau i gyfleu ystyr i'r gynulleidfa arfaethedig. Ni all y gwaith dderbyn marciau band uchaf os nad yw'r rhain yn cael eu bodloni'n ddigonol.

Rhaid i ganolfannau ddefnyddio dull ffit orau wrth osod gwaith o fewn bandiau ar gyfer asesiad. Ar ôl i'r band gael ei fodloni, cynghorir canolfannau i osod pob darn o waith o fewn y band. Mae sylwebaeth asesiad crynodedol yn darparu gwybodaeth hanfodol i gymedrolwyr ac yn gweithredu i gyfiawnhau'r marciau a ddyfernir yn y ganolfan. Mae'n hanfodol, felly, bod sylwadau athrawon yn seiliedig ar feini prawf asesu'r grid marciau, ond ni ddylent fod yn ymarfer torri a gludo syml gan nad yw hynny'n gwneud fawr ddim i helpu i gyfeirio'r cymedrolwr at ganlyniadau penodol yr ymgeisydd unigol. Nid yw bellach yn ofynnol i anodi darnau unigol o waith (er ei fod yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan y cymedrolwr bob amser ac mae'n helpu i dynnu sylw at bwyntiau penodol lle mae'r gwaith yn enghraifft o fodloni meini prawf asesu). Felly, efallai mai sylwadau crynodedol yr athrawon fydd yr unig gyfle i'r ganolfan gyfiawnhau'r marciau a ddyfernir.

Ymchwil

Ymchwil a gyflwynodd y meysydd pryder mwyaf i'r cymedrolwyr. Er bod llawer o'r gwaith ymchwil a gynhaliwyd gan ymgeiswyr yn briodol, cynghorir canolfannau i adolygu'r gosod tasgau er mwyn sicrhau y bydd canlyniadau'r ymgeisydd yn eu galluogi i ddefnyddio'r meini prawf yn y grid marciau. Mae tudalen 21 o'r Fanyleb yn nodi y bydd angen i ddysgwyr wneud gwaith ymchwil i'r ffordd y mae iaith y cyfryngau yn cael ei defnyddio i sefydlu confensiynau genre, cynrychioliadau a thargedu cynulleidfaoedd penodol. Mae hyn yn golygu y dylai ymgeiswyr ymchwilio'n benodol i'r codau genre a chonfensiynau'r ffurf y maent yn ymchwil. Yn yr un modd, cynghorir canolfannau i gyfeirio ymgeiswyr i nodi cynrychioliadau, gan ddefnyddio iaith y cyfryngau priodol i ddangos dealltwriaeth o wybodaeth. Gall ymgeiswyr gymhwyso damcaniaethau fel y bo'n briodol, ond nid ydynt yn rhagofyniad i ennill marciau band uchaf hyd yn oed.

Mae arfer da yn cyfeirio'n benodol at y ffyrdd y mae testunau yr ymchwilir iddynt yn mynd i'r afael â chynulleidfaoedd trwy godau gweledol, codau technegol, gwaith camera, fframio, golygu, codau iaith neu sain, er enghraifft.

Dim ond awgrymu'r wybodaeth hon a wnaeth llawer o ymgeiswyr, gan ddibynnu'n aml ar ddisgrifio yn hytrach na dadansoddi. Roedd diffyg canolbwyntio mewn atebion llai llwyddianus ar y tri maes astudio o ran cymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Roedd rhai canolfannau yn gor-wobrwyo gwaith ym mand 5 lle nad oedd ymchwil yn berthnasol iawn ac yn briodol ar gyfer cynhyrchu yn y dyfodol, neu nad oedd testunau ymchwil a ddewiswyd yn cyfateb i'r gynulleidfa fwriadedig a osodwyd yn y briff.

Bydd gofyn i ddysgwyr ddadansoddi dau gynnyrch y gellir eu cymharu â'r cynhyrchiad o'u dewis. I egluro, ar ôl adolygu amrywiaeth o waith y gyfres hon, cynghorir ymgeiswyr sy'n gweithio mewn opsiynau Print y disgwylir bod dau gynnyrch yn cael eu dadansoddi (h.y. 2 x glawr neu 1 x clawr ac 1 x tudalen gynnwys) yn hytrach na 2 gynhyrchiad llawn (cynnwys x 2, clawr x 2, tudalen ychwanegol x 2) i ganiatáu i ymgeiswyr fod yn ddigon manwl wrth ddadansoddi o ystyried y cyfrif geiriau. Ni chafodd ymgeiswyr eu cosbi am ddehongliad gwahanol canolfannau o'r pwynt hwn o'r fanyleb.

Nododd y cymedrolwyr fod ymgeiswyr yn cyflwyno eu hymchwil mewn amrywiaeth o ffurfiau, gan gynnwys anodiadau, tablau ac adroddiadau ffurfiol. Roedd mwyafrif helaeth yr ymgeiswyr yn gyffredinol yn cwrdd â'r cyfrif geiriau o 250-500 o eiriau. Dylai canolfannau gofio os yw ymgeiswyr yn mynd tu hwnt i'r cyfyngiad hwn, mae goddefiant o 10% am waith sy'n mynd tu hwnt i'r cyfyngiadau a nodir o ran amser a hyd. Os yw cynhyrchiad yn mynd fwy na 10% dros y cyfyngiadau, ni ddylai'r athro/athrawes/aseswr farcio'r gwaith ychwanegol sydd wedi'i gyflwyno y tu hwnt i'r cyfyngiad hwn, oherwydd dim ond gwaith sydd oddi mewn i'r cyfyngiadau a bennwyd ar gyfer amser a hyd sy'n gallu ennill marciau i ymgeiswyr. Mae hyn yn berthnasol i gyfrif geiriau Ymchwil (gweler Tudalen 26 o'r Fanyleb).

Cynllunio

Ar dudalen 21 y Fanyleb ceir manylion am ofynion cynllunio: mae hyn yn cynnwys bwrdd stori ar gyfer y briffiau clyweledol a dyluniad drafft fesul tudalen (felly pedwar) ar gyfer opsiynau Print. Roedd yn siomedig gweld nifer sylweddol o ganolfannau wedi rhoi'r dasg i ymgeiswyr o gynllunio gweithgareddau ychwanegol, na ellid eu credydu o fewn y grid marciau. Er nad oes angen delweddau gwreiddiol ar gyfer cynllunio argraffu, nid yw delweddau wedi'u lluniadu â llaw neu ddelweddau ar hap yn cefnogi'r broses gynllunio. Pan fydd ymgeiswyr yn ymgymryd â chynllunio, dylent ystyried yr apêl i gynulleidfaoedd yn ofalus drwy ddefnyddio confensiynau cynrychioliadol a genre; cyfansoddiad gweledol gan gynnwys defnydd o ofod, cynllun y delweddau, fframio; modd cyfarch; goleuo; defnyddio mise-en-scène a chynnwys iaith a thôn. Mae gofyn i ymgeiswyr gyflwyno bwrdd stori ar gyfer eu cynllunio clyweledol. Dylai byrddau stori fod tua 15-20 o fframiau o ran hyd. Dylent fod wedi'u llunio â llaw ac ni ddylai ymgeiswyr ddefnyddio lluniau wedi'u cipio o gynrychiadau wedi'u cwblhau, nad ydynt yn dderbyniol gan eu bod yn enghreifftiau o weithgareddau ôl-gynhyrchu. Wrth ddatblygu byrddau stori, cynghorir ymgeiswyr i ystyried agweddau technegol fel gwaith camera, golygu, goleuo, amseru a chodau iaith/sain i ddangos cynllunio priodol a 'pherthnasol'.

Cynrychiadau

Roedd yn braf nodi bod gwaith yr ymgeiswyr yn fwy sicr yn gyffredinol wrth ddatblygu cynhyrchion y cyfryngau ar gyfer eu cynulleidfa arfaethedig. Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau astudio'r cyfryngau a oedd yn berthnasol ac yn briodol. Gwnaeth y cymedrolwyr sylw ar ansawdd uchel y gwaith print clyweledol ac ar-lein a welsant. Cynhyrchodd llawer o'r ymgeiswyr ddarnau technegol a chreadigol ardderchog, a oedd yn llwyddiannus o ran bodloni'r gofynion a nodwyd yn y Briffiau. Fodd bynnag, cynghorir canolfannau, lle nad yw cynrychiadau yn bodloni'r gofynion nac yn bodloni'r safonau ar gyfer pob band yn y grid marciau, y dylai hyn gael ei adlewyrchu yn y marciau a ddyfernir.

Roedd y canlyniadau cynhyrchu mwyaf llwyddiannus yn deillio'n benodol ac wedi'u dylanwadu gan ymchwilio priodol a chynllunio â ffocws. Roedd gwybodaeth a dealltwriaeth yr ymgeiswyr o iaith y cyfryngau hefyd yn fwy cyson ar draws y cynhyrchiad. Yn yr un modd, roedd cynrychioliadau o bobl, lleoedd, digwyddiadau neu faterion yn dangos mwy o ystyriaeth ac roeddent hefyd yn cael eu cymhwyso'n fwy cyson. Roedd y gydberthynas uniongyrchol hon rhwng camau ymchwil a chynllunio cynhyrchu codau genre a ffurf yn aml yn fwy priodol a chreadigol. Cynghorir canolfannau'n gryf i gymryd hyn i ystyriaeth wrth gynllunio gweithgareddau addysgu ar gyfer ymchwil a chynllunio.

Opsiynau clyweledol (unigolyn neu bâr): Teledu, Ffilm, Cerddoriaeth neu Hysbysebu.

Os yw ymgeiswyr yn gweithio mewn pâr, rhaid i'r rôl y maent wedi'i chymryd yn y cynhyrchiad, naill ai gwaith camera neu olygu (gan gynnwys sain), fod yn glir. Dylai ymgeiswyr lenwi pob taflen glawr sy'n rhoi manylion y wybodaeth hon. Mae hefyd yn helpu i gefnogi asesiad y ganolfan o waith cynhyrchu mewn parau os yw'r athro/aseswr hefyd yn nodi'n benodol y rôl y mae'r ymgeisydd wedi'i chymryd. Mae gan bob Briff amseriadau penodol. Mewn nifer o ganolfannau, roedd yn amlwg efallai nad oedd hyn wedi'i ystyried yn ystod y cam cynllunio. Roedd asesiad hael ac anghywir wedi digwydd lle nad oedd y gosb briodol wedi'i chymhwyso ar gyfer cynrychiadau a oedd yn uwch na'r terfynau amser. I'r gwrthwyneb, roedd cynrychiadau a oedd yn rhy fyr weithiau'n cael eu marcio'n rhy hael gan fod cynrychiadau o'r fath yn dechnegol yn anghyflawn. Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno ymchwil unigol a phenodol a chynllunio ar gyfer cynhyrchiad mewn parau. Dylai athrawon ddwyn y gofyniad hwn i sylw pob ymgeisydd sy'n dewis gweithio mewn parau. Mae tudalen 32 o'r fanyleb yn rhoi manylion y sgiliau allweddol a ddylai fod yn amlwg mewn cynrychiadau clyweledol. Mae cyngor defnyddiol pellach ar gael yn yr adnoddau cefnogol sydd ar gael ar gyfer TGAU CBAC Astudio'r Cyfryngau.

Dadansoddi Myfyriol

Dadansoddodd a gwerthusodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr eu cynhyrchiad mewn perthynas â'r ddau gynnyrch a ymchwiliwyd iddynt ganddynt heb fawr o drafferth lle'r oedd dealltwriaeth glir o ofnion y fanyleb a'r grid marciau. Roedd y Dadansoddiadau Myfyriol gorau yn groyw ac yn fanwl, gan amlygu'r defnydd o gysyniadau'r cyfryngau mewn cynrychiadau trwy ganolbwyntio a gwerthuso sut yr ymgorfforwyd confensiynau genre allweddol. Gwerthusodd yr enghreifftiau hyn faterion cynrychioliad a godwyd gan y cynhyrchiad a gwerthuso sut y defnyddiwyd confensiynau genre a nodweddion allweddol eraill i dargedu'r gynulleidfa benodol. Cynghorir canolfannau i annog dysgwyr i fod yn ddetholus ac i ganolbwyntio ar elfennau allweddol y cynhyrchiad, gan wneud cymariaethau rhwng y cynhyrchion y maen nhw wedi'u hymchwilio'n unigol a'u cynhyrchiad gorffenedig eu hunain; mae hyn yn arbennig o bwysig wrth ystyried y terfyn geiriau: 500 -750 o eiriau. Mae'n rhaid i'r Dadansoddiad Myfyriol fod ar ffurf wedi'i airbroseu a gellir cynnwys lluniau esboniadol (er enghraifft sgrinluniau neu ddelweddau). Ni ddylid gwobrwyo cyfrif geiriau gormodol y tu hwnt i'r lwfans 10%.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

- Rhaid i'r dysgwyr lynu at y terfynau penodedig ar gyfer amser a hyd.
- Mae pwysigrwydd ymchwil briodol yn holl bwysig. Wrth osod tasgau, rhaid i ganolfannau fodloni'r gofyniad yn y Fanyleb bod ymgeiswyr yn ymgymryd ag ymchwil i'r ffordd y defnyddir iaith y cyfryngau i sefydlu confensiynau genre, cynrychioliadau a thargedu cynulleidfaoedd penodol er mwyn galluogi ymgeiswyr i ennill marciau ym mhob band o'r grid asesu.

- Bydd gofyn i ddysgwyr ddadansoddi dau gynnyrch y gellir eu cymharu â'r cynhyrchiad o'u dewis. I egluro, ar ôl adolygu amrywiaeth o waith y Gyfres gyntaf hon, cynghorir ymgeiswyr sy'n gweithio mewn opsiynau Print y disgwylir bod dau gynnyrch yn cael eu dadansoddi (h.y. 2 x glawr neu 1 x clawr ac 1 x tudalen gynnwys) yn hytrach na 2 gynhyrchiad llawn (cynnwys x 2, clawr x 2, tudalen ychwanegol x 2) i ganiatáu i ymgeiswyr fod yn ddigon manwl wrth ddadansoddi o ystyried y nifer geiriau a roddwyd.
- Dim ond ar gyfer gwaith a gwblhawyd sydd o fewn gofynion y Fanyleb y gellir gwobrwyo ymgeiswyr; ni ellir asesu unrhyw waith allanol a gyflwynir.
- Rhaid i ganolfannau lynu wrth ofyniad yn y Fanyleb ynghylch gwaith pâr, a rhaid i holl fanylion gwaith pâr gael ei fanylu'n briodol yn y gwaith papur a gyflwynir i CBAC.



CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
Gwefan: www.cbac.co.uk